Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Atodiad B

Adroddiad Chwe Mis yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL
2 Tachwedd 2026

TEITL: Adroddiad Chwe Mis yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried yr adroddiad chwe mis yn ôl yr angen, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Ystyried yr adroddiad a gwneud argymhellion yn ôl yr angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad diweddaru yn cael ei gynhyrchu ddwywaith y flwyddyn.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi y bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn paratoi adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.2. Cyd-destun adroddiad o'r fath yw sicrhau bod gwaith yr Is-bwyllgor yn agored ac yn dryloyw a bod ei swyddogaethau'n cael eu cyfathrebu'n glir.

4.3. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu y bydd adroddiadau chwe misol yn ffurfio rhan o brotocol craffu cytunedig a bydd ar ffurf a fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

5. CRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL 2026/27

5.1. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27, daeth Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell ariannu bwysig ar gyfer ymyraethau trafnidiaeth a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP). Gweithiodd Uchelgais Gogledd Cymru, wedi'i gefnogi gan ymgynghorwyr allanol, yn agos gyda swyddogion o awdurdodau lleol i adnabod Rhaglen Cynlluniau i'w hariannu yn 2026/27, a oedd yn adlewyrchu'r cynlluniau a flaenoriaethwyd gan yr RTDP, dyheadau awdurdod lleol a'r gyllideb ddangosol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd ar y rhaglen gan yr Is-bwyllgor ac yna'r CBC yn hydref 2025, cyn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

5.2. Rhoddir cyllid i gyflawni'r cynlluniau i awdurdodau lleol. Roedd cyfanswm yr arian a roddwyd i awdurdodau gogledd Cymru yn £28.3m cyfalaf, a £0.48m refeniw. Dechreuwyd cyflawni'r cynllun ar 1 Ebrill 2026.

5.3. Ers hynny, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu rhaglen cynlluniau'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer blwyddyn ariannol 2027/28. Mae hyn yn ddibynnol ar ystyriaeth fwy manwl mewn eitem arall ar y rhaglen.

6 YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD GAN SEFYDLIADAU PARTNER

6.1 Ers yr adroddiad chwe misol diwethaf, mae ymateb ymgynghoriad wedi'i anfon at Drafnidiaeth Cymru i sicrhau yr ystyrir dyheadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y rhanbarth fel rhan o'r ymgynghoriad masnachfraint bysiau. Gweler yr ymateb yn Atodiad 1.

7. PERFFORMIAD ARIANNOL

7.1 Drwy'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, sicrhaodd y CBC gyllid o £370k cyfalaf a £100k refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli rhaglen y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol. Roedd adrodd ar ddiwedd Chwarter 2 yn cynnwys y gwariant a ddangosir yn Atodiad 2.

7.2. Yn rhannol, mae'r dyraniad cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu tîm o dri staff yn gweithio ar gylch gwaith trafnidiaeth strategol y CBC.

7.3. Defnyddiwyd gwariant ariannol o'r cyllid hwnnw ar gyfer cymorth ymgynghori i barhau â chomisiwn Arup sydd wedi darparu cymorth technegol a gwaith i gwblhau'r RTP a'r RTDP, a chydlynu Rhaglen Cynlluniau'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r gwariant hefyd yn cynnwys amser swyddogion ar gyfer swyddogion y Cyd-bwyllgor sydd wedi gweithio ar ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

7.4. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn prynu cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn darparu amser swyddogion ar gyfer cymorth ar wasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau democrataidd a chefnogaeth gyllidol.

8. RHEOLI ADNODDAU

8.1. Mae cyfrifoldebau trafnidiaeth y CBC wedi tyfu wrth i ni symud i gam cyflawni cynlluniau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Flwyddyn Ariannol hon. Ynghyd â chydlynu rhanbarthol, materion trafnidiaeth strategol sy'n effeithio'r rhanbarth, a chyfrannu i waith ehangach Uchelgais Gogledd Cymru; mae'r CBC yn gyfrifol am weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi a monitro cynnydd a gwariant cynllun Cronfa Drafnidiaeth Ranbarthol Blwyddyn 1 parhaus, ac adnabod a blaenoriaethu rhaglen Blwyddyn 2. Mae hyn wedi golygu bod angen recriwtio staff ychwanegol i gefnogi'r Uwch Swyddog Trafnidiaeth. Mae'r tîm o dri erbyn hyn yn cynnwys:

- Uwch Swyddog Trafnidiaeth (secondiad o Drafnidiaeth Cymru)
- Swyddog Trafnidiaeth (cyflogaeth am gyfnod penodol)
- Swyddog Trafnidiaeth (secondiad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

8.2. Fel y nodwyd yn adran 7, daw cyllid ar gyfer yr adnoddau staff hyn o ddyraniad y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, ond cynghorir Aelodau i nodi diweddariad y perfformiad ariannol yn Adran 7.

10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

10.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Ymateb i ymgynghoriad ar fysiau
Atodiad 2 – Adrodd Ariannol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad chwe misol yn cael ei gyflwyno yn unol â Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor a'r trefniadau llywodraethu ehangach. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau cyfreithiol na llywodraethu ychwanegol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa dros y misoedd diwethaf a ni fyddai cymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiadau ariannol newydd. Nid oes gennyf wrthwynebiad i gynnwys yr adroddiad."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Atodiad 2

Drwy e-bost
I engagement@tfw.wales
Rebecca.Colmer@tfw.wales

Dyddiad: Hydref 2026

Annwyl Dîm Ymgysylltu Trafnidiaeth Cymru

YMATEB CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD I'R YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I DDIWYGIO'R GWASANAETH BWS

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynigion i ddiwygio'r gwasanaeth bws. Gellir gweld ymateb Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd isod. Y bwriad yw ategu at yr ymatebion gan y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, a byddem yn cefnogi unrhyw newidiadau penodol i neu bryderon am y cynigion a godwyd gan awdurdodau unigol o'r rhanbarth yn eu hymatebion.

Cyfle i Ymgysylltu

Mae uwch swyddogion Trafnidiaeth Cymru wedi mynychu nifer o gyfarfodydd o Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol y CBC i ddiweddaru Aelodau am y cynigion sydd wedi eu datblygu ar gyfer y rhwydwaith masnachfraint bysiau. Roedd masnachfreintio yn rhoi cyfle go iawn i wella gwasanaethau bws i gymunedau yn y gogledd ac felly croesawyd yr ymgysylltiad yma gyda'r aelodau a hoffem wahodd Trafnidiaeth Cymru i gyfarfodydd yn y dyfodol fel y daw canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r amlwg ynghyd â'r cynigion terfynol i weithredu yn cael eu datblygu.

Yn ogystal, mae'r gweithio agos gyda swyddogion ar lefel yr awdurdod lleol ar y rhwydwaith sylfaen wedi caniatáu i wybodaeth leol siapio'r cynigion, ac fe groesawyd hyn.

Fodd bynnag, fel y corff sy'n gyfrifol am gynllunio trafnidiaeth strategol ar draws y rhanbarth, mae yn siomedig nad yw Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn ymgysylltu ar lefel swyddogion ar ddatblygiad y cynigion cyn iddynt fynd allan i ymgynghori gyda'r cyhoedd.

Yn olaf, ynglŷn ag ymgysylltu, mae wedi bod yn braf gweld y niferoedd a ddaeth a lledaeniad daearyddol y digwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd a gynhaliwyd fel rhan o'r broses, yn ogystal â faint o wybodaeth a ddarparwyd ar-lein. Mae hyn wedi caniatáu i bobl o gymunedau ar draws y gogledd i ymgysylltu â'r ymgynghoriad pwysig hwn.

Dyheadau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cydnabuwyd pwysigrwydd y newid i fasnachfreintio yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, drwy Bolisi PT1, oedd yn ymrwymo i "weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyniad masnachfreintio bysiau yng ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn fyddai'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd sy'n teithio, yr awdurdodau a gweithredwyr."

Roedd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi ein dyhead am y rhwydwaith fysiau yr hoffem ei gweld yng ngogledd Cymru a'i chyflawni drwy'r cyfleoedd mae masnachfreintio yn eu cynnig.

- **Polisi PT2:** Dylai pob bws newydd sy'n cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru fod yn ddi-allyriadau. Pan fo bysiau newydd yn welliant hirdymor, dylid chwilio am gyfle i ail-bweru'r fflyd gyfredol.

- **Polisi PT4:** Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei chyflwyno yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng ac o fewn aneddleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amlder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i gyda'r nos.
- **Polisi PT5:** Bydd gwasanaethau bws y dyfodol yng ngogledd Cymru yn cynnwys yr isod:
    - Amlder uchel ac oriau gweithredu hir
    - Amseroedd ymadael rheolaidd/cyson
    - Amserlenni ar ddydd Sul mor agos at amlder gwasanaeth yn ystod dyddiau'r wythnos â phosib i gefnogi'r galw o gymudo, hamdden a'r economi ymweld
    - Wedi'u cydlynu i ddarparu amserlen synhwyrol
    - Lleihau amseroedd teithio rhwng y mannau gwreiddiol a'r cyrchfannau gyda'r galw uchaf
    - Defnyddio llwybrau uniongyrchol sy'n aros yr un fath drwy'r dydd
    - Bydd y llwybr yn mynd drwy gyfnewidfeydd trafnidiaeth a gorsafoedd rheilffordd
    - Wedi'u hintegreiddio gyda'r gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw deinamig
    - Yn gyfforddus ar gyfer teithiau hir

Nid yw'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad presennol yn mynd mor bell â chyflawni'r uchelgeisiau hynny; mae'r cynigion sy'n destun yr ymgynghoriad yn debyg iawn i'r rhwydwaith presennol – os nad yn union yr un fath ag ef – yn y rhan fwyaf o Ogledd Cymru. Er cydnabod bod y rhwydwaith a'r patrymau gwasanaeth arfaethedig yn adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael, mae angen rheoli disgwyliadau'r cyhoedd o ran graddau'r gwelliannau sy'n bosibl drwy drefniadau masnachfraint ar hyn o bryd.

Hoffem weld cynigion gan TrC a Llywodraeth Cymru a fydd yn gwella'r rhwydwaith a'r ddarpariaeth gwasanaethau ledled Gogledd Cymru yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, hoffem gael sicrwydd y bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael yn y dyfodol i gefnogi rhwydwaith gwell ar ôl i'r trefniadau masnachfraint fod ar waith.

Ynglŷn ag ariannu, dylid nodi gan fod rhai teithiau ar hyn o bryd yn cael eu gweithredu yn fasnachol, nid ydynt angen unrhyw arian ar y funud. Bydd hyn yn newid pan fo'r llwybrau hynny yn cael eu cynnwys mewn pecynnau masnachfraint, ac mae angen i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru gydnabod na fydd hi'n bosibl cyflawni rhwydwaith bysiau tebyg at ei debyg yn y dyfodol o fewn y drefn ariannu sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymo i ariannu pellach ac aml-flwyddyn fel bod trafnidiaeth gyhoeddus yn gallu symud ymlaen.

<u>Y Rhwydwaith Arfaethedig a Phatrymau Gwasanaeth</u>

Bydd rhai o'r newidiadau gwasanaeth arfaethedig yn golygu newid i deithiau sydd ar hyn o bryd yn rhai uniongyrchol. Ble fo'r newidiadau hyn yn achosi anhwylustod, e.e. cost, oedi neu ansicrwydd i'r teithiwr, dylai'r anhwylustod hwn gael ei leihau. Er enghraifft, mae gwasanaethau F19 ac F18 ar hyn o bryd yn cysylltu pentrefi yn Sir y Fflint gyda'r Rhyl. O dan y cynigion newydd, byddai angen newid ym Mhrestatyn i wasanaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei redeg gan weithredwr gwahanol. Ni ddylai fod cosb ariannol i deithwyr sydd angen gwneud y newid hwn. Yn amlwg gellid mynd i'r afael â hyn drwy'r cynigion tocynnau integredig sy'n cael eu datblygu gan Drafnidiaeth Cymru.

Ar Ynys Môn, mae'r Cyngor wedi cynnal cynllun peilot gan ddefnyddio Cronfa Trafnidiaeth Leol sy'n wasanaeth trafnidiaeth ymateb i'r galw yng Nghymru, a weithredir mewn cymunedau bychain ger yr A5. Digwyddodd hyn ar ôl i'r gweithredwr masnachol roi'r gorau i wasanaethu'r cymunedau hyn ar sail fasnachol gan nodi oedi, niferoedd isel o deithwyr a thrafferthion gyda cheir wedi parcio neu ffyrdd cul fel rhesymau. Mae'n siomedig nad yw'r rhwydwaith masnachfraint arfaethedig yn gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Mae gwasanaethau ar draws y ffin i Loegr yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith trafnidiaeth yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer fawr o bobl sydd yn symud ar draws y ffin i weithio, amser handden, gweld teulu a mynediad at wasanaethau. Ni ddylai gwasanaethau bws ar draws y ffin fod o dan unrhyw anfantais pan fyddant yn croesi'r ffin i Gymru oherwydd unrhyw newid anfwriadol i'r rhan o'r siwrnai yn Lloegr.

Mae'n ymddangos fod yna rai gwallau neu anghysondebau yn y cynnyrch a gyhoeddwyd. Er enghraifft:

- Ar y map rhyngweithiol ym Mhrestatyn, mae'r llwybrau ar gyfer gwasanaethau 11 a 35/36 yn adlewyrchu'r llwybrau blaenorol cyn i'r rhain gael eu newid. Os fydd y rhain yn cael eu newid yn ôl wedi masnachfreintio, nid yw hyn yn cael ei ddangos yn y rhan newidiadau arfaethedig.
- Mae hyn hefyd yn gywir ar gyfer y gwasanaeth 11F, mae'r map yn awgrymu amlder gyda 1 funud rhyngddynt.
- Mae yna ardal Fflecsi fechan iawn yn cael ei dangos yn Saltney Ferry ar y map.

Byddem hefyd yn annog adolygiadau o'r ardaloedd fflecsi i ganiatáu symudiadau dros y ffin i rai gwasanaethau lle nad yw cymunedau o angenrheidrwydd yn edrych ar drefi yn ardal eu hawdurdod lleol, ond ar drefi mewn ardal awdurdod cyfagos. Dylai masnachfreintio a gweithio'n rhanbarthol drwy'r CBC ddarparu cyfle i sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu'r teithiau mae pobl eisiau eu gwneud ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan derfynau gwleidyddol.

Unwaith eto, diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r cynigion hyn ac am ymgysylltu yn rhanbarthol gyda ni. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gynnwys yr ymateb hwn, neu am drafodaeth bellach, mae croeso ichi gysylltu ag Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth Uchelgais Gogledd Cymru yn AdamGraham@uchelgaisgogledd.cymru

Yn gywir,

Y Cynghorydd David A Bithell
Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Atodiad 2									
Enw'r cynllun	**RTF dyraniad 2026/27 (£)**	**Gwir wariant ar y cyfriflyfr yn 2026/27**	**Arian wedi'i ymrwymo yn 2026/27**	**Amcan werth[1] y gwaith / gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2026/27 (£)**	**Gweithgareddau allweddol yn y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad**	**Gweithgareddau allweddol wedi'u cynllunio ar gyfer y chwarter nesaf (dim mwy na 50 o eiriau)**	**RTF rhagolygon alldro 2026/27 (£)**	**Hawliad RTF Ch1[3] (£)**	**Hawliad RTF Ch2[3] (£)**
Refeniw - Gweinyddol RTP	£100,000.00	£26,206.83	£81,188.49	£100,000.00	Cefnogaeth ymgynghorol barhaus i ddatblygu rhaglen RTF Blwyddyn 2, ac ar gyfer gwaith monitro.	Cefnogaeth barhaus i gwblhau'n derfynol y rhaglen Blwyddyn 2 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn Chwarter 3. Ffocws cynyddol ar fonitro a gwerthuso i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru a'n prosesau llywodraethu ein hunain.	£100,000.00	£19,694.27	£6,512.56
Cyfalaf - Rheoli a Monitro	£370,000.00	£30,951.58	£152,649.38	£370,000.00	Recriwtio'r Tîm Trafnidiaeth -	Cadw staff, gan ganiatáu mwy o wydnwch a rôl gynyddol ar gyfer y CBC o ran gweithio	£370,000.00	£0.00	£30,951.58

RTP					dau Swyddog Trafnidiaeth newydd wedi'u recriwtio yn Ch2, gan greu tîm o dri. Ymgysylltu â'r Walk Wheel Cycle Trust ar ymglymiad y Walking and Cycling Index.	rhanbarthol a chefnogi awdurdodau lleol gyda'r rhaglen RTF. Cwblhau'r broses gaffael ar gyfer y Walking Wheeling and Cycling Trust cyn i'r Walking and Cycling Index ddechrau. Recriwtio'r tîm llawn - a gwell dealltwriaeth o'r gost am hynny - bydd yn rhoi darlun cliriach o'r gyllideb sydd ar gael i fwrw ymlaen ag unrhyw gynlluniau cofrestr ymrwymiadau RTP.			